YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

Rhif 6. Mehefin, 1925. Pris, 3c.

.. CYNHWYSIAD. . .

ADEN FFYDD.
ODDIAR Y TWR
CYMDEITHAS Y BOBL DDISTAW.
DYLANWAD BYWYD A MARWOLAETH.
RICHARD PRICE.
TREM YN OL.
DATHLU CANMLWYDDIANT A DADORCHUDDIO MAEN COFFA.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis ; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Dantonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur Beiblaidd

Y GWAITH PWYSICAF AR Y BEIBL A GYHOEDDWYD YN GYMRAEG. . .

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.

— Pris 1/6 y Rhifyn. —

I'W GAEL O—

Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty

Gan ROLAND THOMAS, M.A.,
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-.

Drwy'r post 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1925. [CYF. XXV. RHIF 6.

ALUN MABON YN CANU.

PAM y dylwn gwympo mas
A'r bonheddig yn ei blas?

Iddo yntau fel i mi,
'Run yw'r twyn a'r llwyn a'r lli.

Ac ni esyd Duw'n Ei nef
Seren yn rhagor iddo ef.

Clywais am ei ddawns hyd nos:
'Run yw serch dan dderi'r clos.

A dydd priodas; er pob dawn,
Nis gellir llawnach na chwpan llawn.

Ac wele eto gwpan gwin,
A'm ceriwb eurwallt ar fy nglin.

A oes ganddynt yn y plas
Lasach glas na llygaid glas?

A fedd eu lawnt un petal rhos
Sy'n fwy llyfn na'r rudd fach dlos?

"Alun, mae'n hwyr, 'rwy'n mynd yn wir;
Bydd y gannwyll yng nghyn, paid bod yn hir."

Pam y dylwn gwympo ma's
A'r bonheddig yn ei blas?

O "Plant y Babell" gan WIL IFAN

ODDIAR Y TWR.

GAN mlynedd! 1825—1925! Canrif hynod fu hon—eithriadol hynod. Ar gyfrif y cynnydd rhyfeddol a'i nodwedda ymhob cysylltiad o fywyd, ni cheir ei chyffelyb ymhlith y canrifoedd. O wrando ar yr anerchiadau yng Nghapel y Bryn pwy noson, perwyd imi daflu'm golwg yn ol drosti, a dwyn i gof rai o'i digwyddiadau mawr.

* * *

Beth am y sefyllfa ar ddechreu'r ganrif—1825? Dygn iawn oedd tlodi'r dosbarth gweithiol, ar gyfrif bychander y cyflogau a drudaniaeth pethau angenrheidiol, yn fwydydd ac yn ddillad; nid oedd gan y werin un llais yn llywodraeth eu gwlad; ni wneid un ddarpariaeth gan y Llywodraeth tuag at estyn cyfleusterau addysgol i blant y werin - ni chai plant y werin un addysg gwerth son am dani; prin iawn oedd y rhyddid crefyddol a fwynheid gan Babyddion a chan Ymneilltuwyr; ac nid oedd cydraddoldeb crefyddol mewn bod.

* * *

Beth am y sefyllfa heddyw? Y mae tlodi—o leiaf, tlodi fel y ffynnai ganrif yn ol—wedi diflannu; y mae gan y werin lais yn llywodraeth eu gwlad; y mae addysg o natur gymharol uchel a gwerthfawr o fewn cyrraedd pob plentyn; y mae rhyddid a chydraddoldeb yn ffaith, er nad yn ystyr eangaf y geiriau.

* * *

Diddorol iawn yw olrhain y camau yn y cyfnewidiad: yn 1828, diddymwyd y Ddeddf a analluogai Anghydffurfwyr i ddal swyddi cyhoeddus; yn 1829, estynwyd rhyddid—nid cyflawn—i Babyddion; yn 1832, pasiwyd Deddf i eangu'r etholaeth—y cyntaf o gyfres o ddeddfau o gyffelyb natur; yn 1833, pleidleisiodd y Senedd y rhodd ariannol gyntaf tuag at addysg; yn 1836, caniatawyd i Anghydffurfwyr briodi yn eu haddoldai eu hunain; yn 1844, pasiwyd Deddf y Capeli Anghydffurfiol, a sicrhaodd i Undodiaid feddiant o'r rhan fwyaf o'n haddoldai a'u gwaddoliadau; yn 1846, diddymwyd Deddfau'r Yd; yn 1854, agorwyd y Prifysgolion (Rhydychen a Chaergrawnt) i Anghydffurfwyr; ac yn 1856, caniatawyd iddynt eistedd am raddau'r Prifysgolion hyn; yn 1855, sicrhawyd perffaith ryddid addoliad; yn 1869, diddymwyd y Dreth Eglwys ym Mhrydain, a datgysylltwyd yr Eglwys Sefydledig yn yr Ynys Werdd; yn 1870, pasiwyd y Ddeddf Addysg; yn 1880, caniatawyd i Weinidogion Anghydffurfiol weini mewn angladdau ym mynwentydd yr Eglwys

Sefydledig, ac yn 1898 i weini mewn priodasau yn eu haddoldai eu hunain heb bresenoldeb y Cofrestrydd; ac yn olaf, Datgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys yng Nghymru.

* * *

Nid yw'r uchod ond rhestr noeth o'r prif ddigwyddiadau yn hanes y ganrif; hawdd a fyddai ychwanegu at y rhestr ddigwyddiadau eraill pe caniatai gofod. Nid heb ymdrech, nac heb lawer o ddioddefaint, y sicrhawyd y breintiau hyn; ac o ddarllen yr hanes, braidd na'm temtir i ddyweyd mai rhamant yw'r cwbl, ac nid hanes. Y mae ein llinynnau ni wedi syrthio mewn lleoedd hyfryd; oblegid ein braint ni yw mwynhau o honom ffrwyth llafur y tadau. "Eraill a lafuriasant, ninnau a aethom i mewn i'w llafur hwynt."

* * *

O droi i faes meddwl y ganrif, gwelwn bod y cyfnewidiad yr un mor rhyfeddol, os nad mwy. Ac nid pell o le a fyddwn pe dywedwn y rhaid priodoli'r cyfnewidiad yn syniadau crefyddol y ganrif i fesur mawr iawn i un llyfr yn unig—llyfr Darwin ar "*The Origin of Species*," a gyhoeddwyd yn 1859. Perodd hwn fraw anghyffredin iawn yng ngwersylloedd iawnffyddol y wlad a'r byd; a bu ei awdur yn wrthrych dygasedd o'r fath fwyaf mileinig. Y mae dros drigain mlynedd er hynny; ac yn ystod y cyfnod hwn y mae lefain y llyfr wedi gweithio drwy'r blawd iawnffyddol—yn raddol, mae'n wir; ond er hynny yn sicr,—gan agweddu'r hen syniadau yn fawr iawn. Nid yw'r Galfiniaeth hagr a ffynnai tua chanrif yn ol wedi diflannu; byw yng "ngwynfa'r gwirion" y mae pwy bynnag a dyb hynny; ond y mae, er hynny, wedi gorfod cilio i'r cysgod.

* * *

Yng ngwahanol symudiadau'r ganrif chwaraewyd rhan amlwg iawn gan Undodiaid. Nid atebai un diben i roi yma lechres o enwau'r Undodiaid a fu a rhan yn yr ymdrech o blaid ehangiad terfynau rhyddid—yn wladol a chrefyddol; digon yw sylwi eu bod yn lluosog. Ni ddylai hyn beri syndod; oblegid yn awyrgylch rhyddid y tŷf yr Undodwr. Ac nid yw'r Gymdeithas Undodaidd Saesneg, y dethlir ei chanmlwydd y dyddiau hyn, wedi bod yn ol wneud ei rhan.

* * *

Can mlynedd! 1925—2025! Canrif ryfedd, fel y sylwyd, a fu'r un a derfyna eleni: 1825—1925. Beth am y ganrif nesaf? Ni all na dyn na chymdeithas fforddio byw ar wrhydrau'r gorffennol. O

wneud hynny, ymedy'r gogoniant yn fuan iawn. Beth, ynte, am y ganrif nesaf? Peth peryglus yw proffwydo. Eithr ffyddiog wyf y try allan y rhyfeddaf o'r holl ganrifoedd. Ni raid bod yn broffwyd cyn anturio dyweyd cymaint a hyn. Yr ydym ynghanol rhyw gyffro rhyfedd, mewn byd ac eglwys, na all lai nag esgor ar—wel, ar chwyldroadau pell-gyrhaeddol eu heffaith. Ai tybed y gellir dyweyd ar ei therfyn yr hyn a ddywedodd y diweddar Mrs. Haldane ar derfyn ei hoes o ganmlwydd.

* * *

Mam Arglwydd Haldane oedd Mrs. Haldane. Ganed hi yn 1825; bu farw ychydig ddyddiau'n ol—ddechreu Mai, 1925—newydd basio'i chanmlwydd. Dyma sylwedd ei thystiolaeth ychydig ddyddiau cyn ei marw: "Bûm yn dyst o gyfnewidiadau mawr; a chredaf bod y cyfnewidiadau, ymron i gyd, yn gyfnewidiadau er gwell." Ellir dyweyd yr un peth ddiwedd 2025?

* * *

Yn y sylwadau blaenorol, ni chyfeiriais at y cynnydd rhyfeddol—y mae'r gair rhyfeddol, yn wir, yn rhy eiddil i lawn ddisgrifio'r cynnydd—yn y feistrolaeth y mae dyn wedi ennill ar alluoedd natur. Rhaid ymatal rhag cyffwrdd â'r mater hwn yn awr o ddiffyg gofod. Terfynaf drwy un sylw mewn perthynas i'r darganfyddiad diweddaraf a'r rhyfeddaf o'r oll—y pellebyr di-wifrau. Y mae hwn mor rhyfeddol fel, o feddwl am dano, y perir imi luddedu am anadl. Ar ol hwn, dywedaf bod popeth yn bosibl,

SYLWEDYDD.

GLANNAU'R LLI.

'Rwyf fi yn hoffi'r blodau
Sy'n tyfu'n wyllt a rhydd
Heb undyn yn eu gwylio
Ond awel, nos a dydd;
Yr wyf yn mynd bob hafddydd
Heb gymar gyda mi
I gasglu'r blodau gwylltion
Ar lannau glas y lli.

Af ati'n fore, fore,
I gasglu'r blodau hyn
Cyn i'r ehedydd ddeffro
Rhwng rhedyn gwyrdd y bryn;
'Rwyf wrthi hyd yr hwyrddydd
Nes casglu llu di-ri
O flodau gwyn a melyn
Ar lannau glas y lli.

Dychmygais wrth ddod adre
Weld llawer ysbryd hy
Yn llamu dros y caeau
A'i wallt yn hir a du;
Ond toc, fe welwn oleu
Ffenestri 'nghartref i
Lle cefais wên i'm derbyn
O lannau glas y lli.

Mae gennyf chwaer yn gwywo
Dan farrug oer y glyn;
Mor hoff yw hi o'r blodau—
Rhai melyn, gwyrdd, a gwyn;
Bob nos 'rwy'n dyfod gartref
A'm blodau gyda mi
I lonni'r hon sy'n gwelwi
Ar lannau oer y lli.

HEDD WYN.

CYMDEITHAS Y BOBL DDISTAW.

Oes y sectau a'r cymdeithasau yw ein hoes ni. Codant megis *mushrooms* ar gae, mewn noson, a diflannant, y mwyafrif ohonynt, yr un mor gyflym, gyda'r wawr. Felly yr ä Bywyd yn ei flaen, gan greu a phrofi, gwrthod a derbyn. Gan hynny, nid yw'n beth i ryfeddu ato fod Cymdeithas y Bobl Ddistaw wedi dod i fodolaeth. Y mae mwy o reswm dros fodolaeth y gymdeithas hon na llawer o gymdeithasau y gŵn am danynt. Peth prin iawn heddyw yw distawrwydd. Yr ydym yn byw mewn oes stwrllyd—yr oes fwyaf stwrllyd yn hanes y byd. Ar bob llaw ceir sŵn byddarol. Y mae'r tafodau a'r geneuau cyhoeddus, ynghyd a'r cerbydau a'r peiriannau o bob math, mor niferus heddyw, fel y mae'n anhawdd cael awr na chongl heb ddwndwr a dadwrdd.

Pwy ddydd euthum am dro i'r wlad, er chwilio am dawelwch, ond ofer i raddau fu'r ymgais. Yn union wedi troi o'r brif-ffordd fawlyd i'r lôn arweiniai dros ysgwydd y bryn, cwrddais a dyn, a chreadur siaradus dros ben yw'r dyn diweddar. Rhaid oedd gwrando am yspaid ar hwn yn rhoi'r byd a'r Bettws yn eu lle. Siaradai gyda hyder a chyflymder, ond yr oedd yn amlwg fod y sŵn yn fwy na'r sylwedd. Cofiais am Herbert Spencer yn gwisgo *ear-flaps*, er mwyn cau allan sŵn a siarad dibwynt, ond gan nad oedd darpariaeth o'r fath wrth law gennyf, yr unig beth posibl oedd gollwng y cyfan i fewn trwy un clust ac allan trwy'r llall. Siarad heb weithredoedd, marw yw.

Nid cynt y troais fy nghefn ar y canol-bwynt sŵn hwn, nag y deuthum i gyffyrddiad a rhywbeth gwaeth, sef *motor bicycle* heb *silencer*. Dywed Schopenhaur yn ei lith ar "Sŵn," y dylai pob certiwr graciai ei chwip gael ei gosbi. Dyma ei eiriau, ac y maent yn fwy gwir am y *motor bicycle* heb *silencer* nag am chwip y certiwr:—"Rhaid fod y sŵn siarp, sydyn, hwn, barlysa'r ymenydd, ddistrywia fyfyrdod, lofruddia feddylgarwch, yn peri poen i unryw un a chanddo syniad yn ei ben. Y mae yn aflonyddu ar gant o fobl tra yn cymhwyso eu meddyliau at wahanol oruchwylion bywyd." Beth pe bae'r hên athronydd yn byw yn 1925!!

Gadewais y lôn o'r diwedd am y caeau a'r coedwigoedd, ond nid yn hir y cefais fwynhau cytgord Natur. Och! dyma sŵn byddarol yn tori ar fy nghlustiau o'r glâs uwchben! Dynion yn hedfan yn awr, ac yn cadw sŵn anaearol wrth wneyd hynny.

"Dwy aden colomen pe cawn,
Mi hedwn, mi grwydrwn ymhell."

Ond ofer yw'r dymuniad. Rhaid cyfarwyddo a sŵn y byd yn oes y peiriannau!! Beth ddywedai Thomas Carlyle pe bae yn byw heddyw? Yr oedd ei dŷ ef gynt wedi ei adeiladu mewn modd neilltuol er cau allan sŵn a dwndwr masnach. Yr oedd iddo ddwbl ffenestri, a dwbl ddrysau, ac yr oedd y muriau wedi eu cuddio â *felt* swmpus, er mwyn i'r hên athronydd gael bod mewn cymdeithas di-dor a byd y sylweddau. Onid yw'n bosibl mai sŵn ein gwareiddiad diweddar sy'n gyfrifol am brinder dynion mawr heddyw, oblegid nid oes olynydd i Dafydd ap Gwilym yng Nghymru, nac i Shakespeare a Milton yn Lloegr. Nid oes gan Ffrainc mwyach ei Dumas. Yn yr Eidal, yr arwr heddyw yw Mussolini, nid Dante. Nid oes gan yr Almaen olynydd i Goethe. Beth bynag, y mae sŵn a dwndwr bywyd diweddar yn cael effaith wael ar fywyd y genedl. Y mae'n werth cadw pob eglwys a phob capel ar eu sylfeini, pe ond fel dinasoedd noddfa, er mwyn i ddynion

distaw gael cyfle i ddianc weithiau o ddadwrdd a rhathiad gwareiddiad. Oddiar safbwynt iechydol, heb sôn am ddim arall, y mae'n werth ymroi i gadw un dydd o saith yn Ddydd yr Arglwydd. Y mae rhuthr a chyffyrddiad ein bywyd yn golygu ein bod yn byw ar ein *reserves*, yn gorfforol ; ac felly ceir cynydd mawr yn nifer y *nervous diseases*. Y mae angen Sabboth arnom pe ond i ddiogelu iechyd y genedl. Ond y mae sŵn yn gwneyd cymaint o ddifrod ar feddwl ac yspryd cenedl ag ar ei hiechyd. Amgylchedd dyn rydd ffurf i'w feddyliau a'i ddyheadau. Treulia y mwyafrif mawr o ddynion eu bywydau heddyw o'r cryd i'r bedd yn nwndwr peiriannau mawrion, a gwelir effaith y peiriant arnynt ymhob cyfeiriad. Pa sut y gwêl y glöwr neu'r *steel-worker* yng nghymoedd culion Morgannwg fywyd? Tra gwahanol, mi warantaf, i'r bugeiliaid rodiai'r bryniau cyn i rywun neu rywrai ddarganfod glo oddiyno. I'r bugail gynt, yn byw yn agos at Natur a'i gweithrediadau distaw, tyner, a chyfrin, ymddangosai'r byd gweledig fel delw o'r Byd Anweledig. Yr oedd dyfodiad y Gwanwyn a'r ŵyn bach yn datblygu grasusder a thynerwch ei galon, a llawer haf-ddydd tawel yn ei ddwyn yn agos i'r Nef. Ym mrig yr hwyr, ac ar doriad y wawr, nis gallai lai na theimlo cyffyrddiad cyfrin rhyw yspryd anweledig. Yn ddiarwybod tyfai'r bugail yn addolwr, ac nid oedd dim yn ei amgylchoedd i dorri ar dawelwch a sefydlogrwydd ei ffydd naturiol. Ni arosodd cwmwl amheuaeth yn hir uwchben ei feddwl agored, unplyg ; ac ni ddaeth sŵn dieithr o'r cwm i darfu cwrs llyfn ei fyfyrdodau. Cadwodd y bugail Dduw a Nefoedd yn y tir, a chadwodd y cymoedd yn bur.

Ond nid oes gan y glöwr neu'r gweithiwr haiarn gyfle i dyfu yn addolwr. Ei deimlad yw mai bod yn olwyn mewn peiriant yw pwrpas mawr ei fywyd. Nid yw'r peiriant a'i rathiad yn rhoddi syniad atyniadol iawn iddo am Dduw a'i greadigaeth. Gan hynny, gwell ganddo beidio ymsynied am dano o gwbl. Nid yw'r mŵg a'r annibendod yn tueddu i dynu allan râs naturiol ei galon, ac ychydig o amser sydd ganddo i feddwl am y wlad

"Lle mae'r awel fyth yn dyner,
Lle mae'r wybren fyth yn glir."

O'r ysgariad hwn rhwng Dyn a Natur, sydd wedi troi'r bugail yn beirianydd, a'r gwladwr yn drefwr, y cyfyd y mwyafrif o anhawsterau'r oes. Y cam cyntaf i'w gymeryd, er ceisio dod allan o'r dyryswch, yw ail-ffurfio yr hen undeb rhwng dyn a'r ddaear. Ni cheir y dyddiau fu yn ol, mae'n wir ; ac ofer yw meddwl y gellir cau'r gweithfeydd ; ond y mae'n bryd rhoi cyfle i'r bobl ddod yn ol i'r tir. Y mae purdeb a nerth cenedl yn dibynnu ar fod y fantol rhwng gwlad a thref yn cael ei dal yn weddol gywir. Y tu ol i'r ymfudiad o'r wlad i'r dref y mae stori hir a thorcalonnus—rhy hir i'w hadrodd yn hyn o lith. Digon yw dweyd fod y wlad wedi ei di-boblogi, a'r trefydd a'i dinasoedd wedi llanw i'r eithafion ; a nifer fawr o'r trigolion yn byw fel *slaves* mewn *slums*.

Ond yr wyf yn crwydro. Dechreuais gyda chymdeithas y bobl ddistaw, a chyda hwynt yr wyf am orffen, felly sychaf fy ysgrifell, rhag i'r sŵn fynd yn fwy na'r sylwedd.

D. Cellan Evans.

Northampton.

Mae ymdrech yn llwyddiant bob amser. Mwy peth yw ceisio heb y na llwyddo heb geisio.

DYLANWAD BYWYD A MARWOLAETH.

Dau beth croes i'w gilydd yw bywyd a marwolaeth ; gweithia'r naill yn erbyn y llall, a chais ei ddifodi. Maent mor anghyson ag ydyw goleuni a thywyllwch, gwres ac oerni ; neu hyd yn oed ddaioni a phechod. Ond y maent yn debig yn y ffaith y perthyn iddynt bob un ei ddylanwad. Deuant ill dau dan yr un ddeddf yn y mater hwn. "Nid oes yr un ohonom yn byw iddo ei hun, ac nid yw yr un yn marw iddo ei hun" (Rhuf. xiv. 7). Nid egwyddor a welir yn gweithredu ynglŷn â chymeriadau eithriadol eu gallu a'u cylch yw hon, eithr un a brofir yn y distadlaf a'r cyfyngaf ei rawd yn ogystal ; ni ddichon neb osgoi ei gweithrediad. Llif y bywyd cyfan i fewn i farwolaeth, fel yr afon i'r cefnfor. Fel y bo dyn fyw, felly hefyd y bydd efe farw ; nid yw marw ynddo ei hun yn newid dim ar gyflwr neu anian person. Ofer, gan hynny, yw gwrando, fel Balaam gynt, "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd i fel yr eiddo yntau," sef Jacob neu Israel. Ni ellir marw fel yr uniawn heb yn gyntaf fyw fel efe. Dysgir y gwirionedd ynglyn â hyn yn hytrach gan yr Apostol Paul, pan ddywed ei brofiad wrth yr Eglwys yn Philllpi, "Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw." Dilynna'r ail yn naturiol ar ol y cyntaf ; i'r sawl fo wedi byw bywyd y Crist, a chyflawni ei gyfraith ef, nid colled yw ei farw —iddo ef ei hun, nac i eraill ychwaith—eithr elw mawr a digymysg. Bydd hyd yn oed ei deulu, ei eglwys, a'i ardal, a'r byd, ar eu mantais o farw'r dyn da. Fel y Crist, wrth fyned ymaith, daw yn nes at ei eiddo ; trwy eu gadael o ran y corff, bydd nid yn unig gyda hwynt, eithr ynddynt hefyd. "Buddiol" yw ei fyned yntau ymaith ; teimlir mwy o ddylanwad ei ysbryd, ar ol ei ollwng yn rhydd o rwymau y corff. "Canys pa un bynag yr ydym ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw ; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw ; am hynny, pa un bynag yr ydym ai byw ai marw, eiddo yr Arglwydd ydym" (Rhuf. xiv. 8). Gellir gogoneddu Duw mewn bywyd, ac wedyn mewn marwolaeth ; a lleshau dyn hefyd drwy'r ddau.

Dylanwad Bywyd.

"Haiarn a hoga haiarn, felly gwr wyneb ei gyfaill." Rhydd un dyn da mewn cwmni fin ar eraill, yn eu gwybodaeth, eu profiad, a'u gwasanaeth ; neu yn eu meddwl a'u dychymyg, eu cydwybod a'u hewyllys. Nid oes dim daioni yn segur ; mae bod yn dda yn golygu gwneuthur daioni. Llif rhinwedd o bob dyn da wrth i eraill gyffwrdd âg ef mewn cymdeithas, fel y digwyddodd i'r wraig â'r diferlif gwaed arni, wrth gyffwrdd o'r tu ol yn llechwraidd âg ymyl gwisg yr Arglwydd Iesu. Nid with geisio gwneud hynny yr ydys yn dylanwadu mwyaf ar ddynion o'n cwmpas ; mae llawer o wasanaeth dyn yn anymwybodol, oblegid ei fod mor naturiol a greddfol. Teimlir yn well bob amser, a phrofir awydd bod eto yn well, ar ol bod am ennyd yng nghymdeithas sant gwirioneddol ; mae yr awyrgylch yn bur ac yn fywiocaol. "A gwr fydd megis yn ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymestl ; megis afonydd dyfroedd mewn sychtir, megis cysgod craig fawr mewn tir sychedig" (Esaiah xxxii. 2). Dyna'r ffaith am bob dyn da ; ac nid oes ddyn ond lle bo dyn da ; nid yw neb arall yn llanw'r gair dyn. Difethir dynoliaeth gan bechod ; gwna llygredigaeth gorachod eiddil ohonom, gan grebychu ein henaid yn ei alluoedd amrywiol, ac atal ein tyfiant

yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist (Ephes. iv. 13). Ond pob "gwr" a safo yn uniawn yn ei ran, a fydd trwy hynny yn gysgod i rywun arall yn ei ymyl pan fo'r ddrycin yn curo arno. Heb ddweyd nemor, na cheryddu, na rhybuddio, bydd gan ei fywyd ddylanwad arbedol a dyrchafol. A'i fywyd beunyddiol yw trysor a grym mwyaf y sant. Caiff eraill lechu dan ei gysgod ar lawer cawod flin ac ystorm uchel, ac felly osgoi deifio blodau tyner eu rhinweddau a'u grasusau. Bu Abraham yn amddiffyn i Lot, ac yn ddylanwad i'w gadw ar y ffordd dda; ond pan ddiystyrodd Lot y fantais honno, ac y cefnodd ar ei ewythr ffyddiog, aeth i ddannedd ystorm temtasiwn, ac yn buan y diangodd heb ei andwyo. Collodd Lot gymaint o rym bywyd fel yr ymddangosai mwyach i aelodau ei deulu ei hun fel dyn yn cellwair, hyd yn oed pan yn eu rhybuddio i ffoi rhag y diluw tân. Ond yr oedd peth daioni yn Lot yn ddylanwad i oedi y dinystr ar Sodom; awgrymir na ellid difetha'r dinasoedd annuwiol ar y gwastadedd nes i Lot a'i bobl ffoi i'r mynydd gerllaw. "Rhedwch yma a thraw ar hyd heolydd Jerusalem," medd Duw trwy'r proffwyd Jeremia, "ac edrychwch yr awr hon, mynwch wybod hefyd, a cheisiwch yn ei heolydd hi, o chewch wr, a oes a wnel farn, a gais wirionedd, myfi a'i harbedaf hi" (Jer. v. 1). Byddai dylanwad un dyn o'r nodweddion hyn yn ddigon o reswm dros arbed dinas fawr gyfan. Sonnir weithiau, mewn stori neu chwedl, am dad a bachgen bychan wedi myn'd am dro ar hyd llwybr serth; a phan ddaethant i un man ar y daith, yr oedd y rhodfa yn rhy gul iddynt gerdded ochr yn ochr; a'i y tad yn gyntaf, a'r bachgen yn ei ddilyn; ymhen ysbaid gofynnai'r tad i'w blentyn a oedd yn gallu dod, ac atebodd yntau, "Ydwyf, yr wyf yn rho'i fy nhroed bob cam yn ol eich troed chwi." Mae hon yn ddameg a ddysg inni wirionedd cyffredinol; rhydd rhywun ieuengach, a mwy dibrofiad na ni, ei droed yn y lle y cerddwn i ar hyd-ddo; ac er y gallwn ni gerdded drosodd yn ddiogel, eto os yn cadw yn rhy agos i'r diffwys, dichon i'r sawl a'n cymer ni yn esiampl lithro i'r dyfnder, er archoll fawr neu ddinystr llwyr. Ac o'r ddau, gwell yw inni fod yn golledig ein hunain na phrofi yn achlysur neu achos colledigaeth un arall o blant y Tad. "Y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da." Aiff yr ymadroddion llygredig yn ysbrydion gwenwynig drwy'r awyrgylch, nes profi yn foddion niweidio'r diniwed. Hanfod pechod yw hunanoldeb; ond y mae pob pechod yn gymdeithasol, ac yn ddrwg nid yn unig yn erbyn Duw a'r pechadur ei hun, eithr yn anfantais i eraill sy'n trigo yn ei ymyl ac yn byw dan fesur o'i ddylanwad. Mae dyn yn byw megis mewn heol, ac ni all roi ei dy ei hun ar dân heb beryglu y tai eraill sy'n gysylltiol wrth yr eiddo ef. Felly y perthyn i bob bywyd, da neu ddrwg, ei ddylanwad.

Dylanwad Marwolaeth.

"Nid yw yr un yn marw iddo ei hun" Yn ol cronicl y Beibl, y cyntaf i farw oedd Abel, a hynny trwy ddwylo creulon ei frawd Cain. Ac wrth gyfeirio at ei farw, ac at ei ffydd, dywedir yn y Testament Newydd, "A thrwyddi hi y mae efe wedi marw yn llefaru eto" (Heb. xi. 4). Llefara wrth farw, nid yn unig yn yr ystyr bod ei waed yn gwaeddi o'r ddaear am ddialedd cyfiawn Duw ar y llofrudd, ond hefyd bod ei farw yn dweyd yr un peth a'i fywyd, sef yn dystiolaeth i ddaioni, ac yn ddylanwad er ei ledaenu. Ni ellir distewi y tyst hwn, nid oes lladd ar y da; try erlid y credinwyr yn foddion i ddwyn eraill i gredu (Actau xi. 19). A marw ambell un a ddengys pa mor fawr ydyw—fel cwymp y goeden yn datguddio'n gliriach ei hyd i'r llygad cyffredin.

Cryfder corff oedd nodwedd amlycaf Samson; a dangoswyd honno'n fwy yn ei farw nac yn ei fywyd" (Barn. xvi. 30). Crybwyllir am ddigwyddiad yn hanes Eliseus sy'n ddameg awgrymiadol:—"Ac Eliseus a fu farw, a hwy a'i claddasant ef. A minteioedd y Moabiaid a ddaethant i'r wlad y flwyddyn honno. A phan oeddent hwy yn claddu gwr, wele hwy a ganfuant dorf, ac a fwriasant y gwr i feddrod Eliseus. A phan aeth y gwr i lawr a chyffwrdd âg esgyrn Eliseus, efe a ddadebrodd, ac a gyfododd ar ei draed (2 Bren. xiii. 29–21). Yr awgrym yw bod dylanwad, i fywhau ac i ddeffro, hyd yn oed ym marw gwr Duw. Nid "esgyrn" sychion yw yr eiddo ef; erys nodd a grym ynddynt eto. Aeth cenhadwr tair-ar-hugain oed o Lundain i Ynysoedd Môr y De. Gelwir ef yn gyffredin mewn llyfrau bellach yn "John Williams, Erromanga." Ond yr hyn sy'n rhyfedd yn y cyfryw deitl yw, na bu'r cenhadwr yn byw o gwbl ar ynys yn dwyn yr enw hwnnw, ond yn unig iddo farw'n ferthyr ar ei thraeth. Wedi llafurio ohono am flynyddoedd yn y parthau hynny, gan symud beunydd o ynys i ynys i efengyleiddio'r trigolion, clybu am ynys Erromanga nad oedd neb wedi cynnyg iddi hi efengyl y bendigedig Dduw. Penderfynodd yntau yr ai yno. Rhybuddiwyd ef o'r perygl; dywedid bod pobl wynion wedi glanio ar yr ynys, i wneuthur masnach mewn rhyw nwyddau â'r trigolion, ac wedi gwneud anghyfiawnder â hwy a'u hysbeilio. Cynhyrfodd hynny ysbryd dial yn y brodorion, oeddynt yn bobl greulon ac yn ddyn-fwytawyr. Pan welsant lestr John Williams yn dynesu at y lan, ymgasglasant i'w gyfarfod yn ffyrnig a bygythiol. Ac wedi iddo yntau gerdded trwy'r dwr o'r cwch i'r traeth, cylchynasant ef, a'i labyddio, a'i fwyta, fel na chaed gan ei gyfeillion ond ei esgyrn i'w claddu. Enynnodd ei ferthyrdod ffydd a dewrder mewn cenhadon eraill i wneud ail-gynnyg lle y "methodd" efe, fel y tybid. Deallodd preswylwyr yr ynys erbyn hyn mai caru eu lles yr oedd y cenhadwr cyntaf, ac iddo feddwl dod i'w plith i ddweyd am Dduw'r Nefoedd, y gwir a'r bywiol Dduw, a'r Arglwydd Iesu Grist. Toddodd hyn eu calon fesul tipyn; a chyn pen nemor o flynyddoedd daeth pob dyn, dynes, a phlentyn ar ynys Erromanga, yn addolwr o Dduw John Williams. A thra'n rho'i pob credyd dyladwy i lafur ei olynwyr yno, teg ond odid yw haeru mai achos dynol eu troedigaeth oedd marw'r merthyr-genhadwr cyntaf. Gwnaeth John Williams fwy drwy farw nag a wnaethai drwy ei fywyd ar ei hyd. Gwelir yr un peth yn Llyfr yr Actau. Yr achos dynol o droedigaeth Saul o Tarsis, yn ol yr hanesydd, oedd merthyrdod Stephan y diacon. Pan labyddid hwnnw, dododd y tystion eu dillad wrth draed dyn ieuanc a elwid Saul (vii. 58). Ond wedi bod, i'r mesur hwnnw, yn gyfrannog o'r fath weithred ysgeler; ac yn arbennig, wedi gweled ohono yr wyneb angel gan Stephan, a chlywed y fath eiriolaeth Grist-debyg, "Arglwydd, na ddod y pechod hwn yn eu herbyn," ni fedrodd ysgwyd ymaith mwyach y dylanwad. Dyma ond odid y symbylau y bu mor galed arno wingo yn eu herbyn (ix. 5); ac er i'w gynddaredd yn erbyn disgyblion yr Arglwydd fwyhau a ffyrnigo, ceisio anghofio'r wyneb a boddi'r llais yr ydoedd, a methodd. A pha faint bynnag oedd gwasanaeth Stephan yn ei fywyd, coron ei lafur oedd yr hyn a gyflawnodd wrth farw, sef ennill y fath weithiwr, y fath apostol, a'r fath ddiwinydd, at alwad anghenion Eglwys Dduw trwy'r oesau i gyd. Mynegir yr egwyddor drachefn gan Iesu Grist, pan ddywed yntau, gan gyfeirio o leiaf yn gyntaf at ei groeshoelio, "A minnau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynnaf bawb ataf fy hun" (Ioan xii. 32). Trwy ei farw y datguddiodd efe Dduw gliriaf, ac y cyffyrdda ddwysaf

â chalonnau plant dynion trwy yr oesoedd. Pan symudir ein rhai annwyl o'n golwg, ac y bo marw enwogion cenedl a gwlad, na feddyliwn ac na siaradwn yn unig am ein "colled." Mae'r ennill cyfatebol yn fwy, a'r dylanwad trymaf yn parhau. "Nid yw efe Dduw y meirw, ond y byw; canys pawb sydd fyw iddo ef" (Luc xx. 38). A thrwy ffydd gallant fod eto'n "fyw" i ninnau, ac yn fwy byw nag erioed.

T. R. JONES
Y Bala. (*Clwydydd*).

ADOLYGIAD.

RICHARD PRICE, PHILOSOPHER AND APOSTLE OF LIBERTY. By Roland Thomas, M.A., Director of the Welsh Holiday School. Oxford University Press, 5/-.

Dyma lyfr a darganfyddiad mawr ynddo. Prin iawn, iawn, yw'r rhai a ŵyr hyd yn oed am enw'r Dr. Richard Price. Eto i gyd, dengys y llyfr ardderchog hwn ei fod yn un o garedigion mwyaf dynoliaeth mewn unrhyw oes. Gwr gwir fawr oedd y Dr. Richard Price. Gwnaeth Mr. Roland Thomas wasanaeth amhrisiadwy drwy ei adfer o anghofrwydd. Rhoddodd inni gyfrol dlos a sylweddol dros ben, llawn o ymchwil trylwyr Cyfrol ydyw a saif yn safonol am hir amser.

Brodor o Forgannwg oedd y Dr. Price, ond yn Llundain y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Yr oedd yn gefnder i'r "Ferch o Gefn Ydfa." Addysgwyd ef mewn "Academies" Anghydffurfiol. Mae gan Mr. Thomas bennod ddyddorol yn cywiro syniadau Mr. Shankland, Prifysgol Bangor, ynglyn âg Academy Llwyn-llwyd. Gwaith athronyddol ddaeth â'r Dr. Price i sylw gyntaf. Yna daeth yn adnabyddus drwy'r holl wlad drwy ei Daflenni Yswiriant. Efe yw tad Yswiriant Bywydau, ac efe ffurfiodd y cynllun cyntaf i roddi Blwydd-dâl i'r hen. Pleidiodd America yn ei brwydr dros Ryddid, a chyhoeddodd bamfflled a ddylanwadodd ar America i gyhoeddi ei hannibyniaeth. Cafodd ddinasfraint Llundain yn gydnabyddiaeth, a chafodd wahoddiad i fyn'd i America i roi i lawr seiliau mewnol y Wladiaeth. Pan dorodd y Chwyldroad allan yn Ffrainc yr oedd Price yn un o'r rhai pwysicaf y tu allan i Ffrainc a lawenychant yng ngoruchafiaeth cyfiawnder dros drais. Traddododd bregeth a dynodd ateb Burke yn ei "Reflections," a chyfeiriodd Senedd Ffrainc ato wrth y teitl "Apostol Rhyddid."

Mabwysiadodd y gwr enwog hwn y gredo Undodaidd yn fore. Cydweithiodd â'r Dr. Lindsey i agor y capel Undodaidd cyntaf ym Mhrydain Fawr. Bu ei olygiadau a'i ddylanwad yn werth i Undodiaeth ar hyd a lled y wlad.

Mae Cymru dan ddyled drom i Mr. Roland Thomas am ei gyfrol werthfawr. Trowyd hi allan, hefyd, yn ddestlus dros ben gan Wasg Prifysgol Rhydychain. Cafodd eisoes adolygiadau ardderchog yn America yn ogystal ag yn Lloegr a Chymru. Dylai gael y darlleniad helaethaf. Ei phris yw 5/-, ac y mae'n darllen fel rhamant, er mor llawn yw o'r wybodaeth fanylaf.

TREM YN OL.

Y mae hyd yn oed pobl dda yn agored i wneuthur camgymeriadau, a gŵyr pawb mor aml y camddeallid yr Athro Mawr gan ei ddisgyblion ef ei hun. Hyd ddiwedd eithaf ei yrfa ar y ddaear, driated gan Iesu a fu gweld y rhai agosaf ato ac anwylaf ganddo yn llithro — llithro yn barhaus i gamgymeriadau ynglyn ag ystyr ei genadwri! Gan yr ymddengys felly fod y deuddeg disgybl yn llawn mor chwannog i gamgymeryd â phobl eraill, y mae yn rhy anodd coelio iddynt ddod ar unwaith yn ddigyfeiliorn yn eu barn a'u gwybodaeth, cyn gynted ag yr ymadawodd y Meistr â hwynt. Heb iddynt y fantais annhraethol o fod mwyach mewn cyffyrddiad personol â Iesu, haws ydyw tybio i'w ddisgyblion ŵyro yn amlach na chynt, ac i athrawiaeth efengyl Mab y Saer ddirywio yn gyflym o'i phurdeb cyntefig o'r herwydd.

Dwy elfen fywiol a gwahaniaethol efengyl Iesu oedd tadolaeth Duw a brawdoliaeth dynion, ond gresyn mor fuan ar ol ei fyned ef ymaith y syrthiodd llenni defodaeth a ffurfioldeb i orchuddio gwedd Cristionogaeth. Dysgodd Iesu mai un Duw sydd, a thra fu ef ar y ddaear ni soniodd neb am drindod, neu dri pherson mewn un Duw.

Ym mhen ychydig iawn o flynyddoedd, fodd bynnag, fe gawn Paul yn ei epistolau yn enwi tri pherson, ond, fel pe ar yr un anadl, parhâ i ddywedyd yn bendant mai un Duw sydd (Ephes. 4., 6). Gyda threigliad amser, yn lle bod yn gymdeithas seml a brawdol a geisiai ddilyn esiampl y Gwr nad oedd ganddo le i osod ei ben i lawr, fe aeth yr Eglwys Gristionogol yn sefydliad rhwysgfawr o dan lywyddiaeth Esgob Rhufain—hwnnw erbyn hyn yn dywysog a brenin daearol. Troes Cristionogaeth yn gyfundrefn fawr o ddiwinyddiaeth, ac yn y 4edd ganrif aeth yr eglwys ati i ddeffinio natur Duw, ac wedi i'w meddwl fod yn hir yn symud yn ansicr rhwng dau a thri pherson mewn un hanfod, daeth i'r penderfyniad yn A.D. 325 ei fod yn dri.

Aneglur iawn i'r dysgedicaf ydoedd yr esboniad a roddid ar y gosodiad hwn, ond, er hynny, gwnaeth yr awdurdodau eglwysig hi yn orfodol ar bawb i gredu yn y drindod, a bu yn berigl bywyd i neb yngan gair o amheuaeth ar y pwnc am ganrifoedd maith. Gorchwyl hawdd ddigon i'r difeddwl ydoedd llyncu'r athrawiaeth newydd, a chydag amser, daeth gosodiad rhyfedd y tadau eglwysig yn beth a gyfrifid yn rhy sanctaidd i'w ameu, a chuddiodd haenau trwchus o ofergoelion bob anghysonder â chysegredigrwydd.

Os gwir ydyw dywediad Burke mai crefydd pobl o feddyliau gweinion ydyw ofergoeliaeth, y mae yn amlwg mai prin iawn a fu gallu deallol gwerin Ewrob yn ystod haf llwyddiant y Babaeth. Nid oedd modd ymryddhau o afaelion ofergoel ond trwy gyfrwng gwybodaeth, a chan y byddai hunan-les y rhai oedd yn berchen ar fuddiannau byd ac eglwys yn cael ei beryglu trwy ledaeniad addysg, fe roid pob rhwystr erioed ar lwybr honno. Felly, hyd yn oed pan roes Lloegr ryw hanner cam i gyfeiriad rhyddid crefyddol yn amser Harri'r Wythfed a'i ferch Elisabeth, ni wnaethpwyd fawr yn rhagor o newid yn y gyfundrefn eglwysig na gosod y brenin yn "ben" yn lle'r pab.

Yn y ganrif ar ol hynny, er i ambell un fel Milton ganfod anghysondeb dybryd yn athrawiaeth y drindod, ni feiddiodd neb ymron ymryryd â hi, a hynny yn bennaf oherwydd eu bod yn dal yn gryf gredöau megis "y pechod gwreiddiol" a "chospedigaeth dragwyddol";

a phe dymchwelid athrawiaeth y drindod, fe syrthiai y rheini hefyd.

Pan basiwyd Deddf Cydymffurfiad yn 1662, ac y trowyd allan o'u heglwysi ddwy fil o offeiriaid, dechreuodd llawer o bobl mwyaf deallus y wlad weled mai llygriad o'r Gristionogaeth gyntefig oedd y drindod, ac enillodd syniadau rhyddfrydig nerth mewn llawer cynulleidfa fechan o anghydffurfwyr.

Yn y ddeunawfed ganrif, adgyfnerthwyd yr ychydig rydd-grefyddwyr a oedd yn ddigon hy i wrthwynebu athrawiaeth y drindod, gan gewri megis Joseph Priestley a Richard Price yn Lloegr, ac Iolo Morganwg yng Nghymru. Enillodd yr achos yn ddirfawr hefyd trwy ymlyniad y galluog Theophilus Lindsey, yr hwn a agorodd y Capel Undodaidd cyntaf yn Llundain, yn 1774.

Cyfnod helbulus oedd hwnnw i Gristionogion Undodaidd, a chyfrifid hwynt a'r Pabyddion fel pobl ysgymun. O dan Ddeddf y Prawf (*Test Act*), a basiwyd yn 1673, ni chaent eistedd yn y Senedd, na dal swydd o fath yn y byd o dan y llywodraeth. A gwaeth na hynny ydoedd y gyfraith a basiwyd yn 1689, ac a gam-enwid yn Ddeddf Goddefiad (*Toleration Act*). O dan un adran o honno, cospid trwy garcharlad a gwialenodau bawb a wadai athrawiaeth y Drindod, mewn pregeth neu mewn ysgrifen.

Ar ddechreu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ymwasgodd Cristionogion rhyddfrydig pob gwlad yn nes at eu gilydd yn eu cyfyngder, a ffurfiwyd cymdeithasau Undodaidd yng Nghymru, yn Lloegr, ac yn yr Amerig. Yn gynnar yn y flwyddyn 1825, ymgynghorodd nifer o leygwyr a gweinidogion a'i gilydd, a'r canlyniad a fu cydio holl achosion ac eglwysi Undodaidd y wlad yn undeb cynhwysfawr.

Cyfarfu'r gymdeithas Undodaidd newydd ar y 26ain o Fai, 1825, a chyfenwyd hi yn un Brydeinig a Thramor. Yr oedd ei hamcanion yn driphlyg, sef yn

(1), hawlio i Undodiaid yr un breintiau gwladol ag a fwynheid gan Drindodiaid.

(2), lledaenu egwyddorion Cristionogaeth Undodaidd, ac estyn cynhorthwy ariannol i eglwysi na ofynnent gan eu gweinidogion a'u haelodau gydsynio ag erthyglau athrawiaeth unrhyw gredo; ac yn

(3), cyhoeddi a gwasgaru llenyddiaeth a fo a'i thuedd tuag at leihau dylanwad andwyol cyfundrefn y drindod, ac ail sefydlu uchafiaeth elfennau sylfaenol crefydd Iesu, sef tadolaeth Duw a brawdoliaeth dynion.

Yn ei hieuenctyd, rhoes y Gymdeithas ei phrif sylw i alwad daer anghyfiawnderau cyfreithiol, a llwyddodd i gael gan y Senedd alw yn ol y *Test Act* yn 1828, ac yn fuan ar ol hynny symudwyd y nodau amlycaf o israddoldeb a wahaniaethai Undodiaid oddiwrth y bobl a broffesai gredu yn y drindod. Yna troes at y gwaith parhaol y sefydlwyd hi i'w wneuthur, ac yn ystod y can mlynedd a derfynodd ar y 26ain o'r mis diwethaf cychwynodd a rheolodd liaws mawr o fudiadau i ledaenu efengyl Iesu yn ei symledd cyntefig. Heblaw calonogi a chynorthwyo eglwysi bychain yn y wlad hon, a sefydlu yma achosion newydd, gwnaeth bopeth ag a allai dros ryddid crefyddol ar feysydd tramor hefyd, yn arbennig yn India ac yn Nhransylvania. Cyhoeddodd hefyd filoedd ar filoedd o lyfrau a phamffledi, a bu i'r rheini lefeinio a dylanwadu yn ddaionus ar gymdeithasiaeth a chrefydd yr oes.

Gan mai rhyddhau'r byd o gloffrwym ffurfiau gwag a chredoau caeth ydyw prif nod y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor, fe ddylasai hi ei hun fod yn hollol rydd oddiwrth gulni ysbryd. Ond a ydyw hi felly? Credaf fod y ffaith nad yw'r Gymdeithas yn gofyn gan ein heglwysi na'u gweinidogion am lawnodi neu gydsynio ag unrhyw gredo yn ateb y cwestiwn

yna yn gadarnhaol, ac yn profi ei bod yn ffyddlon i'r ddelfryd y mynnai i bawb ei fyw. Felly ein gweddi ni yng Ngheredigion ydyw ar i'w nerth a'i dylanwad fyned yn fwyfwy, ac i'w hail ganrif fod yn haf toreithiog a theilwng o wanwyn gwyrdd ac addawol ei chyntaf.

CLEDLYN DAVIES.

DATHLU CANMLWYDDIANT Y GYMDEITHAS UNDODAIDD BRYDEINIG A THRAMOR, A DADORCHUDDIO MAEN COFFA I'R DIWEDDAR BARCH. JOHN DAVIES.

Ar y 26ain o Fai cynhaliwyd cyfarfod yng Nghapelybryn, Cwrtnewydd, i ddadorchuddio Maen-coffa i'r diweddar Barch. John Davies, gweinidog eglwysi Capelybryn, Alltyblaca, a Chapelycwm, ac hefyd i ddathlu Canmlwyddiant y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor.

Yr olaf o'r ddau amcan hyn oedd mewn golwg wrth drefnu cynnal y cyfarfod uchod, ond gan i'r Maen-coffa i'r diweddar Barch John Davies gael ei osod i fyny yng Nghapelybryn ychydig cyn y dyddiad uchod manteisiodd y gynulleidfa ar y cyfarfod i ddadorchuddio y Maen ynddo. Eglurwyd hynny yn y cyfarfod gan Mr. D. Cledlyn Davies.

Daeth llawer ynghyd o'r gwahanol eglwysi yn y sir, ac yr oedd y cynulliad yn lluosog. Cyflawnwyd y rhannau arweiniol o'r gwasanaeth gan y Parch. D. Evans, Capelygroes. Cyflawnodd y Parch. T. Arthur Thomas, Llandysul y gorchwyl o ddadorchuddio. Rhoddodd Mr. Thomas anerchiad dyddorol ar fywyd a gweinidogaeth Mr. Davies. Dywedodd mai Mr. Davies oedd wedi ei annog ef i feddwl am fod yn bregethwr, ac mai iddo ef yr oedd yn ddyledus am ei fod yn y weinidogaeth heddyw. Cyfeiriodd at ei alluoedd meddyliol, a dywedodd mai nid dyn cyffredin ydoedd. Yr oedd ei gynheddfau cryfion yn ei alluogi i fod yn weledydd cyflym, ac i ddeall yn eglur feddwl a neges y lenyddiaeth ag oedd yn cael ei chyhoeddi gan ddynion dysgedig a galluog ei amser. Cafodd oes faith, a bu yn y weinidogaeth am fwy na haner can mlynedd. Aeth syniadau dynion mewn athroniaeth, duwinyddiaeth, a chrefydd o dan gyfnewydiadau lawer yn ystod y cyfnod yna, ond yr oedd Mr. Davies yn *up-to-date* mewn gwybodaeth athronyddol a chrefyddol. Ac oblegid hynny parhaodd ei genadwri i fod yn un ddyddorol, addysgiadol, ac apeliadol hyd y terfyn, a theimlai pobl eu bod yn derbyn lles oddiwrthi.

Enillodd safle uchel yn mhlith ei frodyr yn y weinidogaeth, a meddyliai Mr. Thomas am dano (a gellir dweyd y meddylia pawb a'i hadnabyddai yr un fath am dano) fel un o gewri y gorphenol. Heblaw ei lafur ffyddlon i'w eglwysi ei hun, rhoddodd wasanaeth gwerthfawr i gylchoedd eangach. Mor gymeradwy yr oedd fel pregethwr fel yr oedd galw mawr am ei wasanaeth ar amgylchiadau neilltuol, yn enwedig mewn angladdau, gan bobl y tuallan i gylch ei weinidogaeth ei hun. Nid oedd cyfleusterau teithio cystal y pryd hwnw ag ydynt yn awr, ac nid oedd y modur-gerbyd, ag sydd wedi gwneyd teithio pellder mawr yn hawdd, i'w gael y pryd hwnw. Ond pan y byd lai galwad am ei wasanaeth ar gyrrau y mues Undodaidd yn y Sir, yr oedd bob amser yn barod i fyned yno, a hyny ar ei draed ei hun. Clywsom am dano yn

myned i Gymanfa Ysgolion Sul yn Nghiliau. Yr oedd rhywrai wedi trefnu ei fod ef i gael ei gludo yno mewn cerbyd. Un boreuol ydoedd, a gofalus am fod mewn pryd yn mhobman, a chan nad oedd y cerbyd wedi cael ei ddwyn i'w gyfarfod ar amser penodol, cychwynodd ar y daith. Pan yr oedd y rhai ag oedd yn gofalu am y cerbyd hwnnw yn agoshau at Dihewyd, ac heb gael golwg ar Mr. Davies, aethant yn bryderus am dano. Y tudraw i Dihewyd goddiweddwyd ef ar y ffordd ganddynt, ond gan ei fod wedi cyrhaedd mor agos i Ciliau, methasant a'i ddarbwyllo i fyned i'r cerbyd. Dengys yr amgylchiad hwn mor barod yr oedd i gymeryd arno ei hun lafur a fyddai yn costi yn fawr iddo er mwyn bod o wasanaeth. Ar ol cyfeirio at y gwaith mawr a wnaeth efe mewn llawer o gyfeiriadau, apeliodd Mr. Thomas atom am geisio cael cyfran o'i ysbryd, fel y byddo i ninnau gyflawni ein rhan yn yr oes hon.

Siaradodd y Parch. D. Evans hefyd. Dywedodd fod yna rywbeth mor dywysogaidd yn Mr. Davies fel y creai ynddo ef pan yn blentyn deimlad o ofn yn ei gymdeithas. Wedi iddo dyfu i fyny, a dod yn agosach ato, yr oedd y teimlad hwn yn parhau ynddo, ond ei fod erbyn hyn yn ofn parchus. Credwn fod Mr. Davies yn creu teimlad cyffelyb bron ym mhawb o'i gylch. Paraí hynny fod iddo ddylanwad mawr ar y rhai ag oedd ef yn dod i gysylltiad â hwy. Soniodd Mr. Evans am ei ddoniau, a dywedodd pe bae yn perthyn i un o'r enwadau mawrion, y byddai yn adnabyddus drwy Gymru fel un o'i phregethwyr mwyaf.

Ar ol gorphen y rhan hwn o'r gwasanaeth darllenwyd papyr gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, ar hanes y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor. Rhanodd ei bapyr fel y canlyn :— 1. Llongyfarchiadau i'r Gymdeithas ar ei gwaith yn byw am gan' mlynedd ; 2. Ein dyled i'r Gymdeithas ; 3. Ein dymuniadau da iddi yn y dyfodol. Rhoddodd Mr. Jenkins hanes dechreuad y gymdeithas, a soniodd am yr hyn mae wedi wneyd i sicrhau hawliau gwladol a chrefyddol i Anghydffurfwyr, am yr hyn mae wedi wneyd, ac a wna, dros grefydd rhyddfrydig, ac am y cynorthwy a rydd i eglwysi gweiniaid.

Siaradodd y Parch. D. Conwil Evans, Rhydygwin, a mynegodd fod y Gymdeithas drwy y lenyddiaeth a gyhoedda yn galluogi llawer i ddarganfod crefydd sydd yn rhesymol a dealladwy, ac sydd oblegid hynny yn grefydd ag y mae pobl yn gallu eu hymarfer yn eu bywyd beunyddiol, a theimlo eu bod yn llesoli eu hunain yn foesol ac yn ysbrydol drwyddi.

Da oedd genym weled cynulliad mor fawr, a chanfod arwyddion fod cymeriadau da a gwasanaeth da yn cael eu gwerthfawrogi. L.W

MARWGOFION.

Mai 10, bu farw Elizabeth Llewelyn, Wern View, Cribyn, yn Ysbytty, Aberayron, yn 55 oed. Aeth tan *operation* yn y sefydliad uchod, fel y tybid, yn llwyddiannus ; ond ar ol ychydig ddyddiau gwaethygodd, a bu farw fel y crybwyllwyd. Gadawodd ddau blentyn, un lysferch, brawd a chwaer (Mrs. Davies, Frondeg, Cribyn), mewn galar ar ei hol. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Eglwys Cilcennin dydd Iau canlynol ; pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. W. Phillips, Tyngwndwn ; cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. D. Evans, Cribyn ; yn yr Eglwys gan y Ficer, y Parch. R. D. Rees.

MAI 13, yn 86 oed, bu farw Eleanor Evans, Cambrian, Llanybyther, ar ol cystudd hir. Ganed hi yn Llanwnen, lle y mae brawd iddi yn byw yn awr —Mr. Evan Williams, Brynderw; yr hwn, ynghyd a brawd arall yn yr Amerig yn unig sydd yn fyw o nifer luosog o blant. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol un ferch, Mrs. Lloyd, gyda'r hon yr oedd yn byw, a chan yr hon y cafodd bob gofal a thynerwch yn ei chystudd. Claddwyd el gweddillion ym mynwent Aberduar y Sadwrn canlynol, y gweinidog, y Parch. Mr. Griffiths yn gweinyddu; cymerwyd rhan yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, Capelygroes.

MANION AC HANESION.

YR ARHOLIAD.—Yn ychwanegol at y rhai a basiodd yr Arholiad fel y cofnodwyd yn y rhifyn diweddaf, pasiodd y rhai a ganlyn o ysgol Ciliau yn y Safon I: Jane Evelyn Davies, Mary Kathleen Davies, Mair Davies, Tom Tyssul Davies, Mabel Jones, Edward John Jones, Thomas Daniel Jones.

PANTYDEFAID. — Dydd Sadwrn, Mai y 9fed, anrhegwyd aelodau yr Ysgol Sul a charedigion yr achos ym Mhantdefaid, a gwledd ragorol iawn, gan deulu caredig Gwaelltwynoidos, ynghyd a'r ferch a'r mab yn nghyfraith, Mr. a Mrs. David Jones, Bryn, Port Talbot. Y mae Mr. a Mrs. Walters, ac yn arbennig y plant yn hynod am eu ffyddlondeb a'u gweithgarwch gyda'r achos, ac nid oedd y wledd hon ond arwydd pellach o'u cariad at y lle. Bu torfeydd lawer yn cyfranogi o'r pethau da ar hyd y prynawn, a chynnorthwywyd yn y gweini gan foneddigesau perthynol i'r eglwys. Yn yr hwyr cafwyd cyngherdd o radd uchel. Yn ychwanegol at adroddiadau a chanu gan y plant, perfformiwyd *Operetta* gan blant Pantdefaid, yn dwyn y teitl "*Fairy Ring*," a chafwyd hwyl a mwynhad wrth y gwaith, a pherfformiwyd "Plant y Pentref" yn feistrolgar iawn gan blant ysgol Pontsian. Yr oedd ol llafur ac ymroddiad ar waith y plant, ac yn adlewyrchu clod ar y prif-athro a'r athrawesau. Rhanwyd gwobrau i'r plant am eu ffyddlondeb ar hyd y flwyddyn. Gobeithio y bydd yr oll yn ennyn mwy o sel at yr Ysgol Sul. Ar ol talu'r diolchiadau arferol ymadawyd yn swn "Hen Wlad fy Nhadau," wedi diwrnod wrthi ein bodd ymhob ystyr.

ABERYSTWYTH.—Bore Sul, y 17eg o Fai, ar ol y gwasanaeth arferol, cynhaliwyd cwrdd blynyddol yr "Achos Bach" yn yr Heol Newydd, er trin ychydig fusnes. Llywyddwyd yn ddeheuig gan Miss Lewis, Pontypridd, un o ffyddloniaid yr achos. Cafwyd yr adroddiad arferol gan yr ysgrifennydd ar waith y flwyddyn, ac hefyd gan y trysorydd ar y sefyllfa ariannol. Yr oedd tôn y ddau yn galonogol i'r eithaf, ac yn wir gellir dweyd na fu rhagolygon yr achos yma yn fwy ffafriol er y cychwyn. Dewiswyd Mr. Gwilym Davies, gynt o eglwys Brondeifi, i ganu'r offeryn am y flwyddyn ddilynol, ac ail-etholwyd y swyddogion ereill. Talwyd y diolchiadau arferol. —*D.J.D.*

GRAIG, LLANDYSSUL.—Dydd Sul, Mai 24, cynhaliodd Ysgolion Sul y cylch, sef Capelyfadfa, Llwynrhydowen, Pantydefaid, a'r Graig eu cymanfa flynyddol yn y lle uchod. Y mae y gymanfa hon yn parhau yn bur flodeuog, a da oedd gennym yr arwyddion nad yw'n colli tir. Holwyd yr ysgolion ynghyd a'r plant gan

Mr. Ben James, Ysgolfeistr, Pontsian. Gwnaeth ei waith yn ddethau, a chlywyd canmol ar ei ddull diymhongar ac effeithiol. Gobeithio y cawn ei wasanaeth eto. Yr oedd y canu dan ofal Mr. J. Penry Lewis a Miss A. M. Evans wrth yr *Organ*. Yn yr hwyr dechreuwyd y gwasanaeth gan Mr. T. G. Thomas, a chafwyd pregeth ymarferol gan y Parch. E. O. Jenkins. Bu y cyfeillion yn y Graig yn gofalu am y dieithr o fewn y porth. Melys, moes eto.——Bwriedir cynnal Bazaar yn y Tyssul Hall, dydd Mercher, Mehefin 10, pryd y gobeithia pobl y Graig weled llu mawr o'u cyfeillion. Agorir y Bazaar gan Mrs. Llewelyn, Brohedyn, Castellnewydd, a'r cadeirydd fydd Mr. T. Thomas, Cyfreithiwr. Y mae capel y Graig wedi ei adeiladu ar brydles, a bwriada yr eglwys brynu'r tir ar yr hwn mae y capel wedi ei adeiladu i fod yn eiddo y gynnulleidfa. Y mae'r amcan yn deilwng iawn, ac hyderwn y cawn bob cefnogaeth.

CAPELYFADFA.— Dydd Mercher, Gorff. 1, fe gynhelir "Sale of Work" yn y lle uchod ar achlysur agor y Neuadd newydd ag y mae'r gynulleidfa wedi ei chodi er cynal Ysgol Sul, Ysgol Gân, &c. Am 2.30 o'r gloch, fe agorir y neuadd newydd gan un o ffyddloniaid yr achos yn y sir, sef Mrs. Jones, Gellifaharen. Siaredir hefyd gan Miss M E. Marles-Thomas ac ereill. Am 3 o'r gloch fe agorir y "Sale of Work" gan un ffyddlon arall, sef Mrs. Jones, Jeweller, Llandysul. Estynwn groesaw cynnes i bawb o garedigion yr achos i fod gyda ni ar y dydd hwn.

CRIBYN.—Dydd Mawrth, y 15fed o Ebrill, cynhaliwyd Gwledd Dê, ac er i'r tywydd droi allan yn anffafriol, caed gwledd lwyddiannus iawn. Rhoddwyd y wledd gan y teuluoedd a ganlyn: Mr. a Mrs Davies, Frondeg; Mrs. Evans, Cwmiago; Mr. a Mrs. Davies, Ffrwd Arms; Mr a Mrs. Lewis, Fflux; Mr. a Miss Davies, Pensarn; Mr. a Mrs. Herbert, Tangaer. Yn yr hwyr caed Cyfarfod Cystadleuol llwyddiannus, tan lywyddiaeth Mr. Evan Davies, Ffrwd Arms, ac arweinyddiaeth Mr. Griffith Jenkins, Glasfryn. Mr. Hughes, Ffynonoer, a'r Parch. Conwil Evans fu'n barnu, a rhoddasant foddlonrwydd.

CAPELYGROES.—Dydd Mercher, yr 16eg o Ebrill, rhoddwyd Gwledd Dê i Ysgol Sul a chynulleidfa Capelygroes gan Dr. Evan Evans, Llanbedr, cymychiolydd y dosbarth ar y Cyngor Sir. Daeth nifer anarferol luosog ynghyd i fwynhau'r danteithion. Talodd Dr. Evans ymweliad â'r lle yn ystod y prynhawn, a chafodd dderbyniad gwresog. Y mae diolch yn ddyledus iddo am ei garedigrwydd. Yn yr hwyr caed cyfarfod adloniadol llwyddiannus, tan arweiniad medrus Mr. T. J. Jones, C.M., Llanwnen. Drwg gan bawb i Dr. Evans fethu bod yn bresennol. Gwasanaethwyd fel cyfeilyddesau gan Miss Jenkins, Blaenwaun Uchaf, a Miss Evans, Vale of Tivy, Llanybyther.

GWG A GWEN.

Mae gan fy mam ystori fach
Mor dlos am Gwên a Gŵg,
Fod un yn angel bychan gwyn,
A'r llall yn ysbryd drwg.

Mae Gwên yn arfer chware'r nos
Ymhlith y sêr uwchben;
A daw i orphwys yn y dydd
Ar fin y lili wen.

Mae Gŵg yn arfer cysgu'r nos
Mewn cwmwl neu mewn mwg;
A daw i orphwys yn y dydd
Ar ael rhyw blentyn drwg.

Bangor. T. J. WILLIAMS.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,
Carmarthen. Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —



Banking Facilities

The Midland Bank, the greatest organisation of its kind in the world, offers a complete banking service through 2,200 branches in Great Britain and Ireland, and the additional advantages of perfect security and finest rates.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE : 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations : Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland ; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland ; The London City and Midland Executor and Trustee Co. Ltd.